



Cynnig Darpariaeth Dysgu Cyffredinol ac Ychwanegol



Rhagymadrodd

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu ystod lawn o addysg bellach a hyfforddiant hygyrch o fewn y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Trwy ei ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol, ei nod yw sicrhau bod pob dysgwr sydd wedi'u cofrestru yn gallu gwneud cynnydd yn unol â'u dyheadau a'u galluoedd o fewn y cyrsiau a gynigir. Mae pob un o'n safleoedd yn cynnig cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i baratoi pobl ifanc ar gyfer rhagor o astudio a/neu gyflogaeth.

Er mwyn gweld manylion llawn y rhaglenni sydd ar gael, ewch i'n gwefan:

www.cambria.ac.uk

Mae ein safleoedd: Glannau Dyfrdwy, Lloneurgain, Iâl, Ffordd y Bers a Llysfasi wedi'u cynllunio neu eu haddasu i fod mor hygyrch â phosibl i'n holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â chyflyrau corfforol a synhwyaidd.

Mae ein dull cynhwysol o addysgu a dysgu yn golygu ein bod yn gallu bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr ac rydym yn cymryd pob cam rhesymol (gan roi sylw dyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i sicrhau ein bod yn darparu addysgu o ansawdd uchel a chymorth priodol, yn seiliedig ar asesiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o anghenion pob dysgwr.



Derbyniadau

Wrth ystyried ceisiadau gan bobl ifanc (16 i 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio:

- A all y coleg ddarparu'r cwricwlwm, yr arbenigedd a'r amgylchedd a fydd yn galluogi'r person ifanc i gyrraedd eu potensial?
- A fydd cofrestru ar gwrs yn y coleg yn atal y person ifanc rhag cael gafael ar therapïau a gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn iddynt wneud cynnydd rhesymol tuag at eu nodau addysg a hyfforddiant?
- A all y coleg fodloni anghenion y person ifanc heb effeithio'n negyddol ar eu llesiant eu hunain neu lesiant pobl eraill?

Egwyddorion

Mae cyrsiau coleg, i lawer o'n dysgwyr, yn cynnig y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd eu hangen i'w paratoi ar gyfer cyflogaeth a/neu fywyd fel oedolyn. Credwn ei bod yn hanfodol annog pobl ifanc i fod mor annibynnol â phosibl, o ran eu dysgu a'u sgiliau bywyd. Mae ein dull gweithredu, er ei fod yn gefnogol, wedi'i gynllunio i annog pobl i beidio â dibynnu ar eraill drwy ganolbwyntio ar hunan-sgaffaldio, gan ddarparu dysgwyr gyda'r sgiliau a'r strategaethau y gallant eu defnyddio yn y coleg ac mewn bywyd fel oedolyn.

Darpariaeth Dysgu

Mae Coleg Cambria yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion o bob oed. Gyda natur gyhoeddus ac agored ein safleoedd, mae'r amgylchedd yn debygol o fod yn fwyaf addas i anghenion pobl ifanc sydd wedi datblygu'r sgiliau a'r strategaethau sydd eu hangen i reoli eu hymddygiad a'u llesiant eu hunain. Er ein bod yn anelu at gefnogi anghenion addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o ddysgwyr, ni allwn gynnig therapïau na gwasanaethau hynod o arbenigol fel:

- Therapi Iaith a Lleferydd
- Ffisiotherapi
- Therapi Galwedigaethol
- Therapïau Siarad Arbenigol
- Hydrotherapi
- Therapi Adlam

Fodd bynnag, rydym yn hapus i weithio gyda darparwyr eraill, megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, pan mae hynny'n hyrwyddo llesiant a/neu gynnydd dysgwr.

Darpariaeth Dysgu Cyffredinol

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o wasanaethau i **bob** dysgwr. Mae hyn yn debygol o fodloni anghenion y mwyafrif helaeth o'n dysgwyr.

Math o Wasanaeth/Cymorth	Rhagor o Wybodaeth
Dysgu ac addysgu gwahaniaethol	Mae ein staff wedi cael hyfforddiant mewn ymarfer cynhwysol ac yn gallu cyrchu cyngor ac arweiniad ychwanegol gan ein Tîm Cynhwysiant.
Tiwtorialau Personol	Mae pob dysgwr yn cael cyfle i gael: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd tiwtorial un-i-un gyda'u tiwtor personol bob tymor. • Cyfarfodydd un-i-un gydag Anogwr Cynnydd o leiaf unwaith y tymor.
Cyrchu sesiynau llythrennedd/rhifedd	Gall pob dysgwyr ofyn am asesiad a chyrchu sesiynau wedi'u targedu fel rhan o'u rhaglen yn y coleg, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau astudio arbenigol • Strategaethau ADY • Cynllunio gwaith • Rheoli amser • Meddalwedd arbenigol • Sesiynau Llythrennedd/Rhifedd wedi'u targedu
Cyrchu Cymorth Gymorth Sgiliau Astudio	Gall ein staff yn y Llyfrgell/Parth Dysgu ddarparu cymorth gyda: <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau academiaidd • Ymchwilio • Sgiliau TG

Math o Wasanaeth/Cymorth	Rhagor o Wybodaeth
Asesu ar gyfer a darparu trefniadau mynediad at arholiadau	<p>Mae addasiadau rhesymol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amser ychwanegol • Darllenydd cyfrifiadur • Darllenydd • Seibiannau gorffwys • Prosesu geiriau • Papurau wedi'u chwyddo neu wedi'u haddasu • Ysgrifennydd • Cofweinydd • Mynediad i ystafell lai / ar wahân
Cyrchu Technoleg Dechnoleg Gynorthwyol	<p>Mae gan bob cyfrifiadur yng Ngholeg Cambria y feddalwedd ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Offer dysgu cynorthwyol • Read/Write (sy'n darparu offer cymorth cynllunio a thestun-i-leferydd) • Offer chwyddo sylfaenol • Cyrchu rhai o'r adnoddau hyn gartref
Benthyca offer dros dro: chromebooks, gliniaduron, dictaffonau	<p>Mae gan bob dysgwr hawl i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fenthyca chromebooks dros dro
Cyrchu cwnsela	<ul style="list-style-type: none"> • Cwnselwyr yn y coleg
Cymorth llesiant	<p>Gall pob dysgwr gyrchu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am lesiant ar fewnwyd y Coleg • Sesiynau Cambria Heini • Gwasanaethau Dysgwyr ar gyfer gwybodaeth ac arweiniad • Gwasanaethau Caplaniaeth • Anogwr gwydnwch

Math o Wasanaeth/Cymorth	Rhagor o Wybodaeth
Mynediad i lefydd tawel a chynhwysol	<p>Mae gan bob un o'n safleoedd le dynodedig a allai fod yn fwy cyfforddus i ddysgwyr dreulio eu hamser rhydd ynddo.</p> <p>NGAGE - Lle amgen ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mannau llesiant • Trefniadau at ofynion unigol • Gwasanaethau Llyfrgell
Cymorth gyda cheisiadau grant	<p>Gall pob dysgwr gael gafael ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad am Ffioedd a Chyllid gan y Gwasanaethau Myfyrwyr</p>
Cymorth generig, yn y dosbarth	<p>Gall pob dysgwr gael gafael ar gymorth gan staff cymorth cynhwysiant i'w galluogi i reoli eu dysgu, eu hymddygiad a'u llesiant eu hunain, gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd â lefelau uchel o orbryder cymdeithasol; neu sydd â chyflyrau corfforol a/neu feddygol.</p> <p>Mynediad 3 - Cymorth Dysgu yn y Dosbarth</p> <p>Lefel 1 - Cymorth Dysgu yn y Dosbarth</p>

Darpariaeth Dysgu Ychwanegol



Efallai y bydd angen darpariaeth dysgu ychwanegol ar ddysgwyr yng Ngholeg Cambria nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan y ddarpariaeth dysgu cyffredinol sydd ar gael. Gellir cynnig y canlynol i'r rhai sydd â thystiolaeth ategol gymhwyso o angen dysgu ychwanegol.

Y Math o Wasanaeth/ Cymorth (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Yn debygol o fodloni anghenion...	Rhagor o Wybodaeth
Cymorth wedi'i dargedu ac at ofynion unigol	Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n peri risg i ddysgu, cyfathrebu neu lesiant.	Cymorth 1:1 neu wedi'i rannu, wedi'i dargedu gan Staff Cymorth sy'n darparu sesiynau penodol wedi'u targedu ac wedi'u hamserlennu a allai gynnwys: gweithredu fel darllenydd, cofweinydd, gwirio am ddealltwriaeth, dysgu sgaffaldiog, cymerwr nodiadau, recordydd, ysgrifennydd, gan annog rhyngweithio cymdeithasol a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu. Cymorth dysgu rheolaidd, unigol yn ychwanegol i amserlen y cwrs.
Cymorth gofal personol	Ar gyfer dysgwyr gydag anghenion corfforol, meddygol neu wybyddol sydd angen cymorth i gadw'n iach ac yn lân.	Cymorth wedi'i dargedu i sicrhau bod urddas yn cael ei gynnal a bod annibyniaeth yn cael ei hwyluso o ran bwydo, gwisgo, mynd i'r toiled a hylendid cyffredinol.

Y Math o Wasanaeth/ Cymorth (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Yn debygol o fodloni anghenion...	Rhagor o Wybodaeth
Goruchwyliaeth dros ginio ac yn ystod egwyl (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth i reoli risg neu ddysgwyr sy'n methu cael mynediad i ardaloedd cyffredinol oherwydd gorbryder eithafol.	Cymorth wedi'i dargedu gan Gymhorthydd Dysgu, Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu neu Weithiwr Cymorth Gofal ac Annibyniaeth.
Cymorth cyfathrebu	Ar gyfer pobl ifanc a allai fod ag anawsterau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu oherwydd: Mudandod Dewisol, Awtistiaeth a/neu anawsterau dysgu, anabledau neu ddiffygion cyfathrebu eraill.	Cymorth wedi'i dargedu gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu i gefnogi cyfathrebu a dealltwriaeth llafar a dieiriau, gan atgyfnerthu cyfathrebu (sgriptiau), a gweithgareddau iaith a lleferydd.
Gweithiwr Cymorth Arbenigol ADY	Ar gyfer gadawyr ysgol sydd ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol cymhleth sydd angen cymorth personol er mwyn iddynt aros yn ddiogel, cymdeithasu, cynnal llesiant da a/neu gael gafael ar gyfleoedd dysgu.	Cymorth wedi'i dargedu gan Fentor Awtistiaeth i gefnogi cyfathrebu a dealltwriaeth cymdeithasol, gan atgyfnerthu cyfathrebu (sgriptiau), a gweithgareddau iaith a lleferydd.
Cymorth yn ôl ac ymlaen i drafnidiaeth	Ar gyfer dysgwyr sy'n destun asesiad risg neu sy'n methu symud yn gorfforol o'u cludiant i'r ystafell ddosbarth heb gymorth.	Cymorth wedi'i dargedu i symud yn ddiogel o fws neu dacsîr coleg i'r ystafell ddosbarth.

Y Math o Wasanaeth/ Cymorth (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Yn debygol o fodloni anghenion...	Rhagor o Wybodaeth
Cyrchu Technoleg Gynorthwyol arbenigol (e.e. Jaws, SuperNova, ac ati)	Ar gyfer pobl ifanc sydd angen offer arbenigol er mwyn gwneud cynnydd rhesymol ar eu cwrs. Mae'r offer sydd ar gael yn cynnwys: gliniaduron/ cyfrifiaduron pwrpasol wedi'u llwytho â meddalwedd arbenigol a chymhorthion radio.	Mynediad unigol, offer arbenigol fel y tybir sy'n angenrheidiol yn dilyn asesiad.
Pontio pwrpasol	Ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu cymhleth, Awtistiaeth neu gyflyrau corfforol/meddygol, sydd angen cyfnod pontio estynedig pwrpasol.	Gellir gwneud trefniadau i gynnig ymweliadau pontio ar adegau tawel, ymweliadau ychwanegol, hyfforddiant ymgyfarwyddo, cyfweliadau â chymorth, ac ati. <ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau ychwanegol gan y Coleg ar gyfer dysgwyr unigol, rhieni/gofalwyr y gellir eu cynnig ar adegau tawel (gallai hyn hefyd gynnwys hyfforddiant ymgyfarwyddo) • Sesiynau profi yn y dosbarth yn cael eu darparu yn ôl yr angen • Cyfleoedd ychwanegol i gwrdd â staff unigol (Tiwtoriaid a Staff Cymorth) • Cymorth gyda chyfweliadau coleg/cwrs.
Gofal personol/cymorth symudedd at ofynion unigol (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu cymhleth a/neu gyflyrau corfforol/meddygol sy'n effeithio ar annibyniaeth ac yn cyfaddawdu urddas.	Help gyda sgiliau byw bob dydd fel cynorthwyo bwydo, gwisgo, mynd i'r toiled a hylendid cyffredinol.

Y Math o Wasanaeth/ Cymorth (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Yn debygol o fodloni anghenion...	Rhagor o Wybodaeth
Cymorth Cyfathrebu (yn ddibynnol ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cyfathrebu cymhleth.	Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu sydd wedi'u hyfforddi/cymhwysu'n briodol.
Arwyddwr BSL/Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu	Ar gyfer dysgwyr sy'n hollol fyddar ac yn dibynnu ar BSL er mwyn cyfathrebu.	Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu sydd wedi'u hyfforddi/cymhwysu'n briodol e.e. Arwyddwr BSL fel yr argymhellwyd gan Athrawon Arbenigol y Byddar.
Dehonglwr (BSL)	Ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau lefel uwch (neu gyrsiau sydd â lefel uchel o iaith dechnegol) sy'n hollol fyddar ac yn dibynnu ar BSL i gyfathrebu.	Cymorth at ofynion unigol gan Ddehonglwr BSL sydd wedi'u hyfforddi/cymhwysu'n briodol.
Hyfforddiant ymglyfarwyddo	Ar gyfer dysgwyr gyda nam ar y golwg.	Fel yr argymhellwyd gan Athrawon Nam ar y Golwg Arbenigol ac a gynigir fel rhan o gynllun pontio pwrpasol.
Tywysydd sy'n gweld (i fyfyrwr dall)	Ar gyfer dysgwyr â nam difrifol ar eu golwg.	Cymorth at ofynion unigol gan rywun sydd wedi'u hyfforddi/cymhwysu'n briodol.
Ymarferion corfforol/ symudedd wedi'u harwain gan yr unigolyn	Ar gyfer dysgwyr gydag anghenion corfforol/symudedd.	Lle bo angen, gall staff gynorthwyo dysgwyr gyda hunanreoli rhaglenni Galwedigaethol/Ffisiotherapi a argymhellwyd.

Y Math o Wasanaeth/ Cymorth (yn dibynnu ar anghenion unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn)	Yn debygol o fodloni anghenion...	Rhagor o Wybodaeth
Darpariaeth arwahanol	Ar gyfer dysgwyr sy'n gadael yr ysgol sy'n anelu at symud ymlaen i fwy o annibyniaeth, byw â chymorth, ac amrywiaeth o gyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith.	<p>Rydym yn cynnig Cyrsiau Sgiliau Bywyd a Niwrodechnoleg i bobl ifanc sy'n symud ymlaen o ysgolion arbenigol nad ydynt yn gallu cael cyrchu rhaglenni prif ffrwd.</p> <p>Maint dosbarth ar gyfartaledd: 6-11.</p> <p>Cymorth Dysgu Ychwanegol ym mhob dosbarth.</p> <p>Bydd gan bob dysgwr Gynllun Dysgu Unigol sy'n cofnodi eu nodau, eu targedau a'u deilliannau personol.</p> <p>Mae myfyrwyr yn cael cymorth 1:1 rheolaidd gan eu tiwtor personol i adolygu eu cynnydd.</p> <p>Mae targedau unigol ac asesiad RARPA yn sicrhau bod cynnydd wedi'i bersonoli ac yn cefnogi cyrchfannau hirdymor oedolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a Llesiant • Cynhwysiant Cymunedol • Byw'n Annibynnol • Cyflogadwyedd a Chyfathrebu • Sgiliau llythrennedd digidol a rhifedd mewnblanedig • Sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol • Wedi'u harwain gan dargedau unigol • Gweithgareddau hyder a hunan-barch • Ystafell ddosbarth benodol ar gyfer dysgu • Dosbarthiadau bach • Amserlen Weledol • Llais y Dysgwr • Sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar • Ysgol Haf

Darpariaeth Dysgu Arbenigol



Lle mae anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr yn gofyn am gyfleusterau dysgu, therapiwtig a hyfforddiant dwysedd uchel, arbenigol lle darperir addysgu a chymorth gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. **Yn yr achosion hyn, ni fydd y coleg yn gallu bodloni anghenion addysg na hyfforddiant y dysgwyr.**

Math o Wasanaeth/ Cymorth	Yn debygol i ddiwallu anghenion...	Ni All Coleg Cambria Ddarparu
Staff addysgu a chymorth dwysedd uchel, wedi'u hyfforddi'n arbenigol; offer arbenigol a/neu gymorth therapiwtig fel yr argymhellwyd.	Ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anableddau ymddygiadol digwyddedd isel, cymhleth sydd angen lefel uchel o addysgu a chymorth arbenigol yn ogystal ag ymyriadau therapiwtig rheolaidd ac athrawon cymorth (nam yr y golwg/clyw). I'w ymgorffori yn y cwricwlwm o ddydd i ddydd.	Staff sydd wedi'u hyfforddi i gyflenwi: <ul style="list-style-type: none"> • Ymyriadau therapiwtig a meddygol dwysedd uchel, arbenigol Darpariaeth: <ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth breswyl • Cwricwlwm at ofynion unigol Amgylchedd ac Adnoddau: <ul style="list-style-type: none"> • Amgylcheddau caeedig • Ystafelloedd Synhwyraidd ac Ymlacio • Pwll Hydrotherapi • Ystafell Ffisiotherapi • Ystafell Therapi Galwedigaethol
Staff addysgu a chymorth dwysedd uchel, sydd wedi'u hyfforddi'n arbenigol mewn ymddygiad; darpariaeth ymddygiad at ofynion unigol; a/neu ymyriadau therapiwtig fel yr argymhellwyd.	Ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ymddygiadol cymhleth, digwyddedd isel, gydag ymddygiadau sy'n peri pryder sy'n risg sylweddol i'w hunain ac eraill y gallai fod angen strategaethau cyfyngu corfforol arnynt.	Ymyriadau: <ul style="list-style-type: none"> • Atal yn gorfforol • Cymorth ymddygiad at ofynion unigol • Cymorth a rheoli anadlol • Rheoli poen neu osgo • Therapiau hyfforddiant teithio o'r cartref i'r coleg
Offer a/neu hyfforddiant cost uchel, pwrpasol, arbenigol fel yr argymhellwyd.	Ar gyfer dysgwyr sydd angen hyfforddiant neu addysg ychwanegol er mwyn defnyddio adnoddau arbenigol, offer neu dechnoleg gynorthwyol e.e. technoleg syllu â'r llygaid, cymorth Braille, pwll hydrotherapi.	Therapiau: <ul style="list-style-type: none"> • Therapi Iaith a Lleferydd • Therapi Galwedigaethol • Ffisiotherapi • Therapi Cerddoriaeth/Drama/Dyfrol neu Adlam ac ati